cwmpas

**Maniffesto ar gyfer etholiad y Senedd 2026**

# Grymuso cymunedau yng Nghymru i greu economi les wydn, gynaliadwy a chynhwysol










# Cyflwyniad

## Mae Cwmpas yn gweithio o fewn cymunedau ledled Cymru i helpu i greu economi wyrddach a thecach, a chymdeithas fwy cyfartal.

Rydym yn mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb trwy hyrwyddo menter gymdeithasol a datrysiadau cydweithredol a chynorthwyo cymunedau, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i wella ac arloesi trwy ein gwasanaethau cyngor ac ymgynghori arbenigol.

Ers dros 40 mlynedd, mae Cwmpas wedi bod yn gweithio gydag entrepreneuriaid cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, busnesau, cyrff cyhoeddus, cymunedau a mwy ledled Cymru i wireddu newid cadarnhaol.

Mae angen i'n heconomi a'n cymdeithas newid. Rydym yn gwybod bod y syniadau a'r gallu i greu'r newid hwnnw'n bodoli o fewn cymunedau Cymru.

- ✓ **Perchen gan y gymuned**
- ✓ **Arwain gan y gymuned**
- ✓ **Angori yn y gymuned**

Mae arnom angen datrysiadau a berchnogir gan y gymuned, a arweinir gan y gymuned ac sydd wedi'u hangori yn y gymuned i ailgydbwyso ein heconomi a chreu cymdeithas fwy cyfartal.

Mae ein profiad a'n gwybodaeth arbenigol, a gafwyd trwy flynyddoedd o gynorthwyo cymunedau, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i wella ac arloesi, yn golygu bod gennym weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Cymru a'n bod yn deall y newidiadau y mae angen iddynt ddigwydd i'w gwireddu.

Rydym bellach yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i'n helpu i gyrraedd y nod hwnnw.



# Ein cenhadaeth

## Yn Cwmpas, rydym eisiau grymuso cymunedau ledled Cymru i ffurfio dyfodol gwell i bawb, gan roi pobl a'r blaned yn gyntaf.

Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar dri nod craidd:

### 1. Creu economi wyrddach a thecach

Trwy gyngor busnes arbenigol, cymorth i fusnesau cymdeithasol, a hyrwyddo perchnogaeth gan y gymuned neu weithwyr, rydym yn gweithio i greu dyfodol lle mae mwy o fusnesau'n defnyddio eu helw er gwell a lle mae cymunedau'n gallu ffynnu trwy fwy o gyfleoedd cyflogaeth a chyfoeth lleol.

### 2. Creu cymdeithas fwy cyfartal

Mae ein gwasanaethau cynhwysiant digidol, tai a arweinir gan y gymuned a gofal ataliol yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd ac ariannol, mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd, gwella iechyd a lles a grymuso cymunedau i ffurfio eu dyfodol eu hunain a chael at y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

### 3. Sbarduno newid cadarnhaol

Mae ein rhaglenni dysgu a datblygu yn cefnogi twf y sector a'i arweinwyr yn y dyfodol ochr yn ochr â'n harbenigedd a'n hystod o wasanaethau ymgynghori a luniwyd i sbarduno arloesedd trwy gefnogi trawsnewid digidol, gwerth cymdeithasol, cydweithredu a chyd-ddylunio, ymchwil, gwerthuso, astudiaethau dichonoldeb a datblygu polisi.

# Gallwn wireddu newid cadarnhaol gyda’n gilydd.

**Mae ein manifesto yn amlinellu deg galwad i weithredu ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru, sy’n dangos sut gall ymagwedd gydweithredol a arweinir gan y gymuned at ddatblygu economaidd greu Cymru gydnerth, gynaliadwy a chynhwysol.**



# 1 Creu economi les yng Nghymru trwy flaenoriaethu a buddsoddi mewn twf cwmnïau cydweithredol, busnesau a berchnogir gan weithwyr a busnesau cymdeithasol.

## Buddsoddi mewn cymorth arbenigol ar gyfer busnesau cymdeithasol

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i greu economi les, un sy’n rhoi pobl a’r blaned yn gyntaf. Mae tyfu busnesau cymdeithasol yn allweddol i hyn, busnesau fel cwmnïau cydweithredol a chwmnïau a berchnogir gan weithwyr sy’n helpu i greu cymunedau tecach a mwy cynaliadwy.

Er mwyn helpu busnesau cymdeithasol i ffynnu, mae’n hanfodol bod Llywodraeth nesaf Cymru yn buddsoddi mewn cymorth arbenigol sydd wedi’i deilwra i’w hanghenion unigryw. Yn wahanol i fentrau traddodiadol, mae busnesau cymdeithasol yn gweithredu gyda sylfaen driphlyg – gan gydbwyso nodau cymdeithasol, amgylcheddol, ac ariannol.

Mae heriau penodol yn gysylltiedig â sefydlu a thyfu busnesau cymdeithasol, felly mae arnynt angen arweiniad arbenigol ar strwythurau cyfreithiol, llywodraethu, a chael at gronfeydd, nad yw gwasanaethau cymorth busnes safonol wedi’u cynllunio i’w ddarparu. Dylai cymorth fod ar gael ar bob cam, o gychwyn i dyfu, oherwydd bydd y cymorth hwn wedi’i dargedu yn galluogi’r sefydliadau hyn i ffynnu, tyfu’n gynaliadwy ac, yn y pen draw, cael mwy o effaith gadarnhaol ledled Cymru.

## Creu canolfan datblygu cwmnïau cydweithredol newydd

I gyflawni nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ddyblu’r economi gydweithredol yng Nghymru, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, mae’n rhaid i ni ganolbwyntio ar greu ton newydd o sefydliadau angori cydweithredol. Dyma pam mae arnom angen canolfan datblygu cwmnïau cydweithredol – corff rhagweithiol sy’n gyfrifol am amlygu cyfleoedd ar gyfer cwmnïau cydweithredol newydd mewn cadwyni cyflenwi a sectorau sy’n dod i’r amlwg a’u cynorthwyo i ffurfio trwy ddod â’r bobl a’r grwpiau iawn ynghyd i wireddu’r syniadau hyn.

P’un a yw hynny’n golygu gweithio gyda phrifysgolion i ddatblygu cwmnïau cydweithredol deilliedig, gweithio gydag unig fasnachwyr i greu cwmnïau cydweithredol i ddatgarboneiddio ein stoc dai, neu weithio yn y sector amaethyddol i greu’r genhedlaeth nesaf o gydweithfeydd bwyd, mae arnom angen capasiti ar gyfer cydweithredwyr arbenigol i amlygu cyfleoedd a’u troi’n gamau gweithredu.

## Buddsoddi mewn dyblu nifer y busnesau a berchnogir gan weithwyr

Mae busnesau a berchnogir gan weithwyr wedi bod yn llwyddiannus iawn yng Nghymru, gan fwy na dyblu o 37 yn 2021 i bron 100 yn 2025. Mae hyn yn golygu bod mwy o fusnesau llwyddiannus wedi'u hangori mewn cymunedau yng Nghymru, gyda swyddi wedi'u diogelu gan gynllun olyniaeth didrafferth. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y busnesau hyn yn cadw swyddi'n lleol ac yn hybu arloesedd.

Mae'r twf cyflym rydym wedi'i weld hyd yma yn dangos y gellir dyblu maint y sector a berchnogir gan weithwyr, ond bydd angen mwy o fuddsoddiad, ymdrechion brwd i ddatblygu'r farchnad, a chymorth parhaus i fusnesau sydd eisoes wedi newid i berchnogaeth gan weithwyr.

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y model hwn yn creu gwerth economaidd a chymdeithasol sylweddol, felly mae cymorth parhaus gan asiantaethau datblygu arbenigol, a ysgogir gan genhadaeth yn allweddol i gael y budd mwyaf ohono

## Gosod targedau caffael uchelgeisiol

Mae cynorthwyo'r sector busnes cymdeithasol i gyflawni ei sylfaen driphlyg, sef pobl, y blaned ac elw, yn golygu creu amgylchedd caffael a chomisiynu sy'n cydnabod ac yn cymell ei werth cymdeithasol. Argymhellwn osod targedau caffael uchelgeisiol gyda nodau clir a chyflawnadwy ar gyfer cynyddu cyfran y contractau cyhoeddus a ddyfernir i fentrau cymdeithasol, gan sicrhau bod gwariant y llywodraeth yn cryfhau'r economi les yn weithredol.

## Olrhain maint ac effaith mentrau cymdeithasol fel mesur cenedlaethol

Rydym hefyd yn cynnig olrhain maint ac effaith mentrau cymdeithasol fel mesur cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fel bod llwyddiant yn cael ei ddiffinio gan ganlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol, ac nid twf ariannol yn unig.

**Trwy gymryd y camau beiddgar hyn, gall Llywodraeth nesaf Cymru gyflawni economi decach a mwy cynaliadwy a arweinir gan y gymuned sy'n gweithio i bobl a'r blaned, nid dim ond elw.**




2

# Hyrwyddo perchnogaeth gymunedol ar asedau fel rhan allweddol o strategaeth genedlaethol i gynyddu cyfoeth cyfunol a grymuso pobl leol.

## Hyrwyddo perchnogaeth gymunedol ar asedau fel rhan hanfodol o strategaeth genedlaethol i gynyddu cyfoeth cymunedol

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru hyrwyddo a deddfu ar gyfer perchnogaeth gymunedol ar asedau yn rhan o strategaeth genedlaethol i gynyddu cyfoeth cymunedol. Mae enghreifftiau llwyddiannus o Gymru yn dangos cymunedau'n achub asedau lleol, a ddylai gael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth, fel sy'n digwydd yn Lloegr a'r Alban. Mae perchnogaeth gymunedol yn hyrwyddo gwydnwch economaidd, democratiaeth, a ffyniant, gan alluogi Cymru i greu economi decach a mwy cynaliadwy sy'n cynyddu cyfoeth cymunedol a chydbwyso economïau lleol.

## Datblygu deddfwriaeth ar gyfer perchnogaeth gymunedol yng Nghymru

Mae'n hanfodol ein bod yn creu deddfwriaeth i gefnogi perchnogaeth gymunedol yng Nghymru. Trwy ddysgu o brofiadau Lloegr a'r Alban, gall Llywodraeth nesaf Cymru gyflwyno hawliau cyfreithiol cryf a grymuso cymunedau i gymryd perchnogaeth ar asedau lleol, trwy broses sy'n glir ac yn hygyrch.

## Defnyddio perchnogaeth gymunedol a chydweithredol fel cyfryngau datblygu economaidd

Mae perchnogaeth gymunedol a chydweithredol yn gyfryngau grymus i hybu economïau lleol. Trwy gefnogi cwmnïau cydweithredol a busnesau cydfuddiannol ar draws sectorau, o ofal cymdeithasol i undebau credyd, gallwn greu cyfleoedd sy'n cadw cyfoeth a phenderfyniadau yn nwylo pobl leol.

## Cefnogi newid deddfwriaethol â buddsoddi mewn cymorth

Er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol trwy newid deddfwriaethol, mae'n rhaid i ni ei gyfuno â buddsoddiad ystyrlon mewn cymorth cymunedol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu ffrydiau cyllido penodol ar gyfer pryniadau gan y gymuned, sy'n cwmpasu popeth o gymorth cychwynnol cyn caffael i ddarparu cyfalaf tymor estynedig, cyllido hirdymor, a chymorth arbenigol wedi'i deilwra. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod pob cymuned, ni waeth am ei hadnoddau neu ei chapasiti presennol, yn cael y cyfle i geisio perchnogaeth a datblygu.

**Gall ymrwymiad cryf i berchnogaeth gymunedol rymuso unigolion a chryfhau economïau lleol. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru achub ar y cyfle hwn i greu Cymru decach a mwy democrataidd.**



3

# Blaenoriaethu iechyd hirdymor ein cymunedau trwy fuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol hanfodol a chynorthwyo'r rhai sy'n eu darparu.

## Blaenoriaethu gwasanaethau lles ataliol a arweinir gan y gymuned

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru symud tuag at wasanaethau lles ataliol a arweinir gan y gymuned, gan sicrhau bod pobl yn gallu cael at y cymorth y mae arnynt ei angen mewn ffyrdd sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau. I gyflawni hyn, mae angen i ni sicrhau bod cyflenwad cryf a chynaliadwy o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymunedol, ac mae'r sector menter gymdeithasol yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth.

## Gwneud prosesau comisiynu'n fwy hygyrch i fentrau cymdeithasol bach, cymunedol


Mae angen i ni barhau i wella'r ffordd rydym yn trefnu ac ariannu gofal lleol fel bod grwpiau a mentrau cymdeithasol cymunedol, llai o faint yn cael cyfle teg i gymryd rhan. Trwy wneud y broses yn symlach, ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn penderfyniadau, a chynllunio gwasanaethau mewn partneriaeth â chymunedau, gallwn helpu'r grwpiau hyn i ddarparu gofal hygyrch o ansawdd uchel.

Mae hefyd yn bwysig bod y darparwyr cymunedol hyn yn cael cyllid hirdymor sefydlog yn rhan o'r Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol, gan sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn gynaliadwy ac nad ydynt yn dibynnu ar gylchoedd cyllido byrdymor.

## Archwilio cydweithfeydd iechyd cymunedol aml-randdeiliad

Un o'r heriau mawr sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru yw'r argyfwng olyniaeth sy'n achosi dirywiad sylweddol yn nifer y meddygon teulu. Dylem archwilio cydweithfeydd iechyd cymunedol, lle gall pobl leol a gwahanol grwpiau helpu i berchen ar wasanaethau meddygon teulu a'u cynnal gyda'i gilydd er mwyn helpu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a chynnwys y gymuned mewn penderfyniadau, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n wynebu prinder meddygon teulu neu lle mae practisiau'n cau.

**Bydd grymuso dulliau a arweinir gan y gymuned yn galluogi Cymru i ddatblygu system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar atal, personoli, a gwydnwch hirdymor. Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i ymgorffori'r egwyddorion hyn mewn polisi ac ymarfer i greu cymunedau iachach a mwy cysylltiedig.**



4

# Ailffurfio ein sector gofal cymdeithasol trwy roi'r cymorth y mae ei angen ar gymunedau, gweithwyr a chomisiynwyr i gychwyn a thyfu modelau a systemau cydweithredol.

## Cymryd camau beiddgar i ailgydbwyso'r sector gofal cymdeithasol

Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ailffurfio gofal cymdeithasol trwy ddatblygu mentrau cymdeithasol a ffyrdd o weithio a modelau cydweithredol. Mae'r dulliau hyn yn blaenoriaethu pobl dros elw, gan sicrhau gwasanaethau gofal cynaliadwy o ansawdd uchel sydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol.

## Datblygu'n rhagweithiol gadwyn gyflenwi gref o fentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol ar gyfer gofal cymdeithasol

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru feithrin cadwyn gyflenwi gadarn o fentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol trwy fuddsoddi mewn capasiti lleol i ddod â rhanddeiliaid ynghyd a darparu'r cymorth arbenigol sy'n angenrheidiol i ddatblygu modelau busnes cymdeithasol. Bydd cymryd camau pendant i gefnogi twf darparwyr gofal cydweithredol newydd a phresennol yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac yn sicrhau sector gofal amrywiol a chydnerth.

## Sicrhau cefnogaeth drawslywodraethol i gwmnïau cydweithredol ym maes gofal cymdeithasol

Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau cefnogaeth drawslywodraethol i gwmnïau cydweithredol ym maes gofal cymdeithasol trwy ymgorffori egwyddorion cydweithredol mewn polisi a chaffael gofal cymdeithasol. Gall cydnabod cwmnïau cydweithredol aml-randdeiliad ac ymddiriedolaethau perchnogaeth gan weithwyr fel modelau democrataidd cynaliadwy sy'n dosbarthu elw wella gofal o ansawdd a datblygu'r gweithlu.

## Ehangu modelau gofal a arweinir gan y gymuned ledled Cymru trwy gynlluniau peilot a mentrau profi a dysgu

Bydd symud o ofal cymdeithasol a ysgogir gan argyfwng i fodelau ataliol a arweinir gan y gymuned yn helpu i rymuso dinasyddion a gofalwyr. Mae ein profiad o gefnogi'r rhwydweithiau hyn yng Nghymru yn dangos y buddion clir sy'n gysylltiedig â galluogi cymunedau i ffurfio a darparu gofal.

**Trwy ymrwymo i'r camau gweithredu hyn, gall Llywodraeth nesaf Cymru greu system gofal cymdeithasol decach a chynaliadwy sy'n blaenoriaethu gofal democrataidd, o ansawdd uchel a ysgogir gan y gymuned, gan sicrhau bod gwasanaethau gofal yng Nghymru yn gweithio i'r rhai sy'n dibynnu arnynt, yn ogystal â'r rhai sy'n eu darparu.**




# 5 Cefnogi modelau busnes sylfaen driphlyg i sicrhau newid cyfiawn i economi wyrddach a chynaliadwy yng Nghymru.

Dylai economi sero net gynaliadwy roi pobl a chymunedau yn gyntaf. Mae busnesau cymdeithasol mewn sefyllfa unigryw i arwain y newid hwn, gan sicrhau bod trawsnewid economaidd o fudd i bawb. Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau beiddgar i gefnogi mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, a sefydliadau cymunedol i arwain y ffordd tuag at economi decach a gwyrddach.

## Bod yn rhagweithiol wrth amlygu cyfleoedd i fusnesau cymdeithasol greu swyddi da, cynhwysol yn yr economi werdd

Trwy gydweithio, gallwn helpu busnesau cymdeithasol yn yr economi werdd i greu swyddi cynhwysol o ansawdd a sicrhau bod buddion twf gwyrdd yn cael eu rhannu'n eang. Boed hynny ym maes ynni adnewyddadwy, yr economi gylchol, adeiladu cynaliadwy, neu ddatgarboneiddio, gall mentrau cymdeithasol yn y meysydd hyn greu cyflogaeth ystyrlon mewn cymunedau lleol, gan sicrhau bod manteision economaidd twf gwyrdd yn cael eu rhannu'n deg gan bawb.


## Cefnogi busnesau sy'n defnyddio'r model sylfaen driphlyg

Mae busnesau cymdeithasol yn hyrwyddo cynaliadwyedd ym mhob sector, felly bydd cefnogi mentrau sy'n cydbwyso elw â chyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol yn helpu i greu economi gynaliadwy yng Nghymru. Gall annog menter gymdeithasol fel y model diofyn ar gyfer entrepreneuriaid newydd drawsnewid y ffordd rydym yn cynnal busnes yng Nghymru a chreu'r economi gynaliadwy y mae arnom ei hangen.

## Cefnogi prosiectau ynni a berchnogir gan y gymuned

Gall cefnogi prosiectau ynni a berchnogir gan y gymuned helpu i rymuso cymunedau lleol a chadw'r elw ynddynt. Mae'r mentrau hyn hefyd yn creu ffyrdd arloesol a arweinir gan y gymuned o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a dylid eu cefnogi ledled Cymru, gyda chymorth cynhwysfawr o gynllunio i gyflawni. Dylem annog perchnogaeth gymunedol ar fannau gwyrdd i'w gwneud yn haws i bawb gyfrannu at warchod natur a chefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned sy'n fuddiol i ni i gyd.

**Trwy fuddsoddi mewn busnesau cymdeithasol i sbarduno'r newid i sero net yng Nghymru, gall Llywodraeth nesaf Cymru greu economi decach a gwyrddach lle mae cynaliadwyedd yn gyfle ar gyfer ffyniant, nid yn faich ar gymunedau.**



# 6 Buddsoddi mewn sicrhau bod pawb yng Nghymru wedi'i gynnwys yn ddigidol wrth i wasanaethau, economïau a chymunedau gael eu trawsnewid yn ddigidol

Digital inclusion is about making sure everyone can use the internet and digital devices easily and safely, whenever they need or want to. These skills are essential for taking part in today's online world and economy. As more services and parts of life move online, being able to connect digitally is more important than ever. In Wales, 7% of people are digitally-excluded. While this number has dropped a lot over the past twenty years, it means those left behind are now even more isolated. We can't assume that people who are online today will always stay connected as technology changes quickly and rising living costs put more people at risk.

## Implement the findings of the Minimum Digital Living Standard research pilot


The findings of the Minimum Digital Living Standard research pilot need to be implemented and expanded to include all households in Wales. Deepening our understanding of what it means to be digitally-included in Wales today is vital ensuring digital inclusion for all.

Wales has led the way on researching and developing the MDLS, and is already supporting our colleagues in Welsh Housing Associations to improve the lives of people in our communities. We should continue with this momentum by expanding the research to include more types of individuals and families, and support more organisations working directly with communities to utilise the MDLS in their work.

## All public sector digital transformation programmes should allocate budget for digital inclusion

In order to create a truly digitally-inclusive Wales, we need everyone to take this on as their responsibility. As we modernise our public services with digital tools, it is essential that all public sector digital transformation programmes set aside some of their budget for digital inclusion. If we don't make digital inclusion a key part of every public service, people will fall through the gaps which will impact their wellbeing and increase pressure on public services in the long-run.

**Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fuddsoddi mewn trawsnewid digidol, fel y gall Cymru arwain y ffordd wrth greu platfformau cydweithredol a defnyddio deallusrwydd artiffisial er budd cymdeithasol.**




# 7 Cryfhau democratiaeth Cymru trwy gynulliadau dinasyddion, cydgynllunio gwasanaethau a buddsoddi mewn llythrennedd cyfryngau

Er mwyn i ddemocratiaeth Cymru weithio i bawb o ddifrif, mae'n rhaid iddi esblygu i ddod yn fwy cyfranogol, cynhwysol, a chydweithredol. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i gynnwys pobl yn fwy uniongyrchol mewn ffurfio'r penderfyniadau, y polisïau, a'r gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae hyn yn golygu symud y tu hwnt i ymgynghori traddodiadol a thuag at gydgynhyrchu gwirioneddol, lle mae dinasyddion yn dylanwadu o ddifrif ar bolisi, gwasanaethau, a llywodraethu.

## Rhoi llais cryf i bobl gyffredin trwy Gynulliadau Dinasyddion

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sefydlu Cynulliadau Dinasyddion fel nodwedd barhaol o ddemocratiaeth Cymru, gan roi llais cryf i bobl gyffredin mewn penderfyniadau allweddol. Mae ein Haciau Caredigrwydd Dechrau Rhywbeth Da wedi dangos pa mor effeithiol yw dod â phobl at ei gilydd i adnabod heriau a chydgynhyrchu datrysiadau. Trwy ymgorffori'r gwerthoedd hyn yn y broses ddemocrataidd a dod â grwpiau amrywiol at ei gilydd i rannu syniadau a datrys problemau, gall y cynulliadau hyn helpu i ffurfio polisïau sydd wir yn adlewyrchu anghenion pawb.

## Ymgorffori cydgynllunio mewn diwygio gwasanaethau cyhoeddus

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, a'r bobl y mae gwasanaethau cyhoeddus yn effeithio arnynt, yn ymwneud â helpu i gynllunio sut mae'r gwasanaethau hynny'n gweithio. Bydd hyn yn arwain at wasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol ac ymatebol sy'n adlewyrchu anghenion go iawn y bobl maen nhw'n eu gwasanaethu.

## Buddsoddi mewn llythrennedd cyfryngau ac addysg ddemocrataidd

Yn ystod y cyfnod gwleidyddol newidiol ac anwadal hwn, mae'n bwysig i bawb ddysgu sut i osgoi camwybodaeth a deall sut mae ein democratiaeth yn gweithio. Trwy fod yn rhagweithiol a buddsoddi mewn llythrennedd cyfryngau ac addysg ddemocrataidd, gallwn helpu pobl i wneud dewisiadau gwell, osgoi llyncu gwybodaeth ffug, ac ymwneud yn fwy â'n cymunedau. Mae hyn yn hanfodol i gynyddu ymddiriedaeth mewn sefydliadau a chreu etholwyr mwy gwybodus a gweithgar.

**Trwy arfer agwedd gydweithredol at ddemocratiaeth, gall Llywodraeth nesaf Cymru rymuso pobl ledled Cymru i gyfrannu'n weithredol at ffurfio eu dyfodol, gan sicrhau bod democratiaeth Cymru yn gweithio i bawb, nid dim ond y rhai sydd mewn pŵer.**




8

# Datblygu modelau tai cydweithredol ac a arweinir gan y gymuned fel rhan allweddol o'r ateb i'r argyfwng tai.

Rydym yn falch o wasanaethu fel y Ganolfan Alluogi ar gyfer tai a arweinir gan y gymuned yng Nghymru, gan hyrwyddo lleisiau cymunedau a chefnogi twf y sector hollbwysig hwn. Ers dros ddegawd, rydym wedi gweithio ochr yn ochr â chymunedau, cyllidwyr a llunwyr polisïau i gynyddu ymwybyddiaeth, chwalu rhwystrau, rhoi arweiniad arbenigol, a rhannu gwersi gwerthfawr a ddysgwyd ledled Cymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Mae gan fodelau tai cydweithredol ac a arweinir gan y gymuned rôl allweddol i'w chwarae wrth greu marchnad dai gynhwysol a chynaliadwy yng Nghymru. Ceir enghreifftiau ysbrydoledig ledled Cymru o bobl leol sy'n arwain y ffordd wrth helpu i ddatrys problemau lleol penodol, creu cartrefi fforddiadwy a datblygu cymunedau cryfach.

## Gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cartrefi fforddiadwy a arweinir gan y gymuned

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod targedau twf uchelgeisiol ar gyfer nifer y cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu datblygu trwy fentrau tai a arweinir gan y gymuned, ac i weithio mewn partneriaeth â ni, cymunedau, llywodraeth leol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a darparu arweinyddiaeth, arweiniad ac adnoddau trwy ddeddfwriaeth, fframweithiau polisi a chyllid grant refeniw a chyfalaf penodol.

## Sefydlu cronfa benthyciadau cylchol ar gyfer tai a arweinir gan y gymuned

Rydym eisiau ysgogi twf a mynd i'r afael â methiant y farchnad trwy sefydlu cronfa benthyciadau cylchol ar gyfer tai a arweinir gan y gymuned. Byddai gan y gronfa hon gymysgedd o ffynonellau buddsoddi, gan gynnwys grantiau'r llywodraeth a buddsoddiad cymdeithasol, er mwyn iddi aros yn hyblyg ac yn sefydlog. Byddai'n rhoi benthyciadau ar gyfer cynllunio cynnar, dechrau arni, a datblygu prosiectau, gan ei gwneud yn haws i syniadau tai newydd gychwyn yn dda.

## Creu strategaeth dai genedlaethol sy'n cynnwys tai a arweinir gan y gymuned

Rydym yn galw am gynllun tai cenedlaethol sy'n gwneud tai a arweinir gan y gymuned yn rhan o'r ateb. Rydym eisiau gweld camau gweithredu beiddgar, gyda tharged ar gyfer adeiladu cartrefi fforddiadwy a bod 10% o leiaf o'r rhain yn cael eu creu trwy fodelau tai a arweinir gan y gymuned. Mae angen cymorth cynllunio cenedlaethol a lleol i helpu'r prosiectau cymunedol hyn i lwyddo, gan gynnwys arweiniad wedi'i ddiweddaru ac opsiynau datblygu mwy hyblyg. Mae hyn yn golygu darparu hyfforddiant i gynghorau lleol a'u hannog i weithio'n agos gyda'r Ganolfan Tai a Arweinir gan y Gymuned i greu polisïau cadarnhaol sy'n cefnogi cymunedau lleol.

## Annog perchnogaeth gymunedol ar dir ac asedau

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru helpu cymunedau i berchen ar dir ac asedau lleol trwy gyflwyno deddf sy'n rhoi'r cyfle cyntaf iddynt brynu'r asedau hyn pan fyddant yn dod ar gael er budd cymunedol, gan gynnwys datblygu cartrefi fforddiadwy a arweinir gan y gymuned. Dylid sefydlu corff trydydd sector cenedlaethol cyfryngol i ddal tir ac adeiladau dros dro ar ran cymunedau, gan sicrhau bod y mannau pwysig hyn yn cael eu cadw er budd lleol, fel datblygu tai fforddiadwy ar gyfer y rhai y mae arnynt eu hangen.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth nesaf Cymru yn parhau â'i phartneriaeth gyllido gyda sefydliadau a chronfeydd ymddiriedolaeth i roi cymorth a chyngor i gymunedau ledled Cymru sydd eisiau darparu tai fforddiadwy a arweinir gan y gymuned, ac yn gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i chwalu'r rhwystrau hysbys a chyflymu/cynyddu graddfa darparu tai fforddiadwy a arweinir gan y gymuned.

## Rydym eisiau gweld cyllid am chwe blynedd ar gyfer rhaglen gymorth genedlaethol tai a arweinir gan y gymuned

Dylai'r rhaglen hon barhau i weithio gyda sefydliadau ac ymddiriedolaethau i gefnogi a chynghori cymunedau yng Nghymru sydd eisiau adeiladu tai fforddiadwy a arweinir gan y gymuned. Dylai hefyd weithio'n agos gyda phartneriaid i chwalu'r rhwystrau hysbys a'i gwneud yn haws ac yn gyflymach i greu tai fforddiadwy a arweinir gan y gymuned.

**Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru osod targedau twf uchelgeisiol ar gyfer adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy trwy dai a arweinir gan y gymuned. Trwy gydweithio â chymunedau a phartneriaid, a darparu arweinyddiaeth gref, canllawiau clir, a chyllid sefydlog, gall Llywodraeth nesaf Cymru rymuso cymunedau lleol i arwain datrysiadau tai.**



# 9 Gwarchod y Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy ailgydbwyso economïau a chefnogi busnesau, asedau a gwasanaethau a arweinir gan y gymuned.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i gefnogi'r sector menter gymdeithasol fel un o gonglfeini ei hymdrechion i hyrwyddo a chynnal y Gymraeg. Gan ychwanegu at lwyddiant prosiect Perthyn, mae achos clir dros gefnogi cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol Cymreig newydd ac sy'n tyfu i greu economïau lleol cryf a gwydn lle gall y Gymraeg ffynnu.

## Datblygu cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol a berchnogir gan y gymuned

Mae'n bwysig datblygu cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol a berchnogir gan y gymuned i greu economïau lleol cryf, yn enwedig mewn mannau lle mae'r Gymraeg yn fyw ac yn ffynnu. Mae'r mentrau hyn yn darparu cyfleoedd gwaith ystyrlon i siaradwyr Cymraeg, gan eu galluogi i aros mewn ardaloedd lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg, neu ddychwelyd iddynt. Gan eu bod wedi'u lleoli mewn cymunedau lleol, mae cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn defnyddio syniadau busnes a gwerthoedd cymunedol i gyflawni buddion parhaol i'r Gymraeg a'r economi.

Mae'r nifer gynyddol o fusnesau a berchnogir gan y gymuned a busnesau cymdeithasol yng Ngwynedd yn dangos pa mor werthfawr y gall y Gymraeg fod i'r economi. Mae prosiect Perthyn wedi dangos sut gall cefnogi syniadau newydd a arweinir gan y gymuned gael effaith drawsnewidiol a grymuso cymunedau Cymraeg eu hiaith.

## Ehangu model Perthyn i ddatgloi potensial ychwanegol ledled Cymru

Trwy ehangu model Perthyn, gallwn ddatgloi potensial ychwanegol trwy helpu mwy o gymunedau ledled Cymru, mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn helaeth ac mewn ardaloedd lle mae'n llai cyffredin. Bydd cefnogi mentrau cymdeithasol newydd yn y cymunedau hyn yn creu cyfleoedd newydd i bobl ddysgu, defnyddio, a rhannu'r Gymraeg, gan feithrin ei thwf a normaleiddio defnydd ohoni o ddydd i ddydd.

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru gydnabod y sector menter gymdeithasol fel offeryn allweddol yn ei strategaethau iaith Gymraeg. Trwy ymrwymo i gyllid sbarduno, hyfforddiant a chymorth seilwaith ar gyfer cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol, fe all sicrhau bod y Gymraeg nid yn unig yn cael ei gwarchod, ond yn ffynnu fel iaith fyw ym mhob rhan o Gymru.**



10

# Hyrwyddo rôl cwmnïau cydweithredol wrth gryfhau'r sector bwyd a chynnal cymunedau gwledig yng Nghymru.

Mae cwmnïau cydweithredol a busnesau a berchnogir gan y gymuned yn bwysig i gadw cymunedau gwledig Cymru yn gynaliadwy ac yn gydnerth.

Mewn ardaloedd lle mae buddsoddiad sector preifat traddodiadol yn gyfyngedig, mae'r modelau hyn yn darparu gwasanaethau hollbwysig, yn creu cyflogaeth leol, ac yn helpu i gadw arian yn y gymuned yn hytrach na'i fod yn cael ei hawlio gan randdeiliaid o bell i ffwrdd. I fynd i'r afael â thlodi gwledig a helpu pobl i ffynnu, mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gymryd camau pendant i ychwanegu at hanes balch modelau cydweithredol ac a arweinir gan y gymuned yn yr ardaloedd hyn a chynorthwyo mentrau cydweithredol ac a arweinir gan y gymuned i ehangu.

## Amlygu cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth gymunedol a busnesau cymdeithasol wrth wraidd strategaeth datblygu economaidd gwledig

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru amlygu cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth gymunedol a busnesau cymdeithasol mewn cymunedau gwledig, gan alluogi pobl leol i reoli gwasanaethau fel siopau, swyddfeydd post, trafnidiaeth, a gofal plant. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau o ansawdd uchel, a arweinir yn lleol y mae eu hangen ar gymunedau ar gael iddynt yn barhaus. Mae modelau fel tafarnau, siopau pentref, a grwpiau trafnidiaeth a gynhelir gan y gymuned wedi llwyddo i gynnal bywyd gwledig yng Nghymru.

## Buddsoddiad a chymorth ar gyfer cwmnïau cydweithredol y sector bwyd

Bydd cefnogi cwmnïau cydweithredol yn y sector bwyd, gan ychwanegu at lwyddiant cydweithfeydd amaethyddol presennol fel Calon Wen a Ffermwyr Clunderwen a Sir Aberteifi, yn galluogi ffermwyr i gydweithio i brosesu, marchnata, a gwerthu eu cynnyrch. Bydd y dull cyfunol hwn yn cryfhau cadwyni cyflenwi lleol ac yn helpu i sefydlu system fwyd decach a mwy cynaliadwy. Bydd dysgu o'r llwyddiannau hyn yn helpu i greu systemau bwyd lleol cryf a galluogi Cymru i ddatblygu sector tyfu bwyd ffyniannus a arweinir gan y gymuned.

**Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru ymgorffori egwyddorion cydweithredol wrth wraidd datblygu economaidd gwledig a datblygu system fwyd wydn. Bydd hyn yn creu cymunedau cryfach a thecach lle mae gan bobl reolaeth go iawn dros eu heconomïau lleol a'u dyfodol.**

# Ein galwadau i weithredu

Rydym eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru ein helpu i ffurfio dyfodol mwy disglair i bawb. Trwy greu economi gref, gofalu am ein hamgylchedd, a sicrhau bod tegwch wrth wraidd pob penderfyniad, gallwn greu Cymru gydnerth, gynaliadwy a chynhwysol gyda'n gilydd.

Rydym eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:

1

## Buddsoddi mewn cymorth arbenigol a chreu canolfan datblygu cydweithredol

i amlygu, cynorthwyo, a thyfu cwmnïau cydweithredol, busnesau a berchnogir gan weithwyr, a busnesau cymdeithasol newydd ar draws sectorau allweddol.

2

## Hyrwyddo perchnogaeth gymunedol ar asedau fel rhan o strategaeth genedlaethol

trwy gyflwyno deddfau newydd, darparu cyllid i gymunedau brynu'r asedau hyn, a chynnig cymorth arbenigol.

3

## Grymuso mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau iechyd a arweinir gan y gymuned

trwy symleiddio sut mae contractau'n cael eu dyfarnu a rhoi mwy o werth i effaith gymdeithasol.

4

## Datblygu a gweithredu rhaglen i gefnogi ac ehangu modelau gofal cymdeithasol menter gymdeithasol a chydweithredol

gan gynnwys buddsoddi mewn hyfforddiant a chymorth lleol, annog cydweithio, a sicrhau bod gwerthoedd cydweithredol yn cael eu hymgorffori yn ein polisïau gofal cymdeithasol a sut mae contractau'n cael eu dyfarnu.

5

## Buddsoddi mewn busnesau cymdeithasol i sbarduno newid sero net Cymru

i alluogi creu swyddi cynhwysol o ansawdd uchel ac ysgogi ffyniant lleol.

6

## Buddsoddi mewn sicrhau bod pawb yng Nghymru wedi'i gynnwys yn ddigidol

gan gynnwys cymorth parhaus i Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru a neilltuo cyllideb yn holl brosiectau digidol y sector cyhoeddus i helpu mwy o bobl i gysylltu a dysgu sgiliau digidol newydd.

7

## Cryfhau democratiaeth Cymru

trwy gynulliadau dinasyddion, cydgynllunio gwasanaethau a buddsoddi mewn llythrennedd cyfryngau i roi rôl uniongyrchol ac ystyrlon i bobl wrth ffurfio polisïau a deddfwriaeth allweddol y llywodraeth.

8

## Buddsoddi mewn ehangu modelau tai fforddiadwy a arweinir gan y gymuned

trwy gynnig benthyciadau hyblyg, mynediad rhwydd i gychwyn prosiectau a chreu fframweithiau polisi ategol sy'n grymuso cymunedau lleol i arwain datrysiadau tai.

9

## Darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer cwmnïau cydweithredol a busnesau cymdeithasol iaith Gymraeg newydd a phresennol a arweinir gan y gymuned

trwy gyllid, hyfforddiant, a chymorth ar gyfer prosiectau sy'n cryfhau'r Gymraeg mewn cymunedau lleol.

10

## Ymgorffori egwyddorion cydweithredol wrth wraidd datblygu economaidd gwledig ac i helpu i greu system fwyd wydn

trwy amlygu cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth gymunedol a busnesau cymdeithasol mewn cymunedau gwledig a chefnogi mwy o gwmnïau cydweithredol yn y sector bwyd.

Sganiwch isod i gael gwybod mwy am Cwmpas:

Cwmpas
Sbarc
Heol Maindy
Caerdydd
CF24 4HQ

0300 111 5050

info@cwmpas.coop

www.cwmpas.coop

Mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, fel print bras neu braille, ar gael ar gais. Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg a cheisiwn ddarparu gwasanaeth o'r un safon yn y ddwy iaith.